

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Chwefror 12fed yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Arwel Davies (Cadeirydd), Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Gwilym Davies, Euros Puw, Rhys Richards, Gwynedd Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jean Roberts, Geraint Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Ysgol Y Parc.

Cafwyd adroddiad o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod ym mis Ionawr ynglŷn â dyfodol yr adeilad. Roedd y Swyddog Adfywio Bro - Trefniadaeth Ysgolion, Cyngor Gwynedd yn bresennol a thrafodwyd y broses o drosglwyddo'r adeilad i'r Cyngor Cymuned ac yna ei lesio i Bwyllgor Rheoli'r Neuadd. Yn ddiweddarach roedd y clerc wedi derbyn llythyr yn cadarnhau telerau'r gwerthiant. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylai'r Cyngor Cymuned brynu'r adeilad gan Gyngor Gwynedd ac yna ei lesio i'r Pwyllgor Rheoli. Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â Chyngor Gwynedd i gadarnhau ychydig o faterion ac yna trefnu cyfarfod gyda'r Pwyllgor Rheoli i drafod y cynnig.

Dwr yn gorlifo o'r ffosydd ar y A4212 ger Rhydyfen, Arenig a ger Beudy Uchaf, Parc.

Derbyniwyd cadarnhad bod Arolygwr Priffyrdd Cyngor Gwynedd wedi ymweld â'r safle a chytunwyd i gynnwys y gwaith ar raglen waith y gweithlu.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn.

i) Chopi o gofnodion y cyfarfodydd diwethaf –19/12/12 a 17/1/13.

ii) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - roedd y Bartneriaeth wedi derbyn cynnig pellach ynglŷn â chymryd drosodd rhai o doiledau a meysydd parcio'r Parc a gofynnwyd i'r Cyngor drafod y cynnig. Nid oedd gan y cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad i'r cynllun ond gofynnwyd am gadarnhad y byddai dim baich ariannol ar y Cynghorau Cymuned a Thref os byddai'r cynllun angen arian ychwanegol yn y dyfodol.

b) Cyngor Gwynedd.

i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer Ionawr a Chwefror.

ii) Derbyniwyd llythyr yn ein cyngori bod y Cyngor wedi mabwysiadu set o bolisiau a oedd yn ymwneud a 'Cynnal a Chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus'.

iii) Copi o'r 'Gorchymyn Cyfyngiad Cyflymder dros dro' – Cyfyngiad cyflymder 30 m.y.a. ar ran o'r A4212 o Drawsfynydd i'r Bala.

c) Un Llais Cymru.

i) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal ym Mhafiliwn Criced, Dolgellau ar y 9/01/13 am 7.00y.h.

ii) Copi diweddaraf Y Llais.

iii) Derbyniwyd llythyr yn ein cyngori bod Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau £1.25m o arian ychwanegol i gefnogi Cynghorau Cymuned a Thref i ddatblygu gwefannau.

ch) Heddlu Gogledd Cymru

i) Llythyr yn ein cyngori o'i hymgyrch 'Cofrestru eich beic'.

ii) Llythyr yn ein cyngori o'i hymgyrch 'Recriwtio Swyddogion Gwirfoddol'.

d) Amrywiol

i) Cyngor Tref Y Bala – Gwahoddiad i gyfarfod ar y 7/3/13 i drafod ‘Gofal nyrsio ac ysbaid ym Mhenllyn’. Cytunodd Gwynedd Jones i fynychu’r cyfarfod

ii) Llywodraeth Cynulliad Cymru - Llythyr yn ein hysbysu o’r ‘Swm priodol o dan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972’ a ‘Benthyca gan Gyngorau Cymuned a Thref yn 2013-14’.

iii) Cyngor Iechyd Cymuned – Copi o ‘Ymateb atodol i gynigion Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr’.

iv) Mantell Gwynedd – Gwybodaeth am eu ‘Cronfa Buddsoddi Gymunedol’. Cytunwyd i ddsbarthu’r wybodaeth i’r neuaddau lleol.

v) Llywodraeth Cymru – Copi o’r cylchgrawn – Parth Menter Eryri.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

NP5/72/218B - Creu pwll pysgota, rhodfeydd, cuddfannau a thirlunio. Maes Carafanau a Champio Ty’n Cornel, Frongoch.

NP5/72/225 – Creu mynediad newydd dros dro i gerbydau. Tir ger A4212, Arenig.

Cytunwyd i gefnogi’r ceisiadau.

Derbyniwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-

NP5/72/223B – Cais ol-weithredol i ail godi cwt moch. Blaen y Cwm, Parc.

Materion Ariannol.

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Cantref, Gofal Croes Ffyrdd, Papur Llafar y Deillion Dolgellau a’r Cylch, AGE Cymru, Grŵp Mynediad Meirionnydd, Urdd Gobaith Cymru Cylch Penllyn, Urdd Gobaith Cymru Pwyllgor Apêl Leol Y Parc a Sefydliad yr Aren. Cytunwyd i’w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Unrhyw Fater Arall.

Ffens ddiogelwch ar y A4212 ger Rhydyfen, Arenig.

Roedd y clerc wedi gwneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â’r cynllun. Gyda’r gyllideb a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru eleni nid oedd yn bosib iddynt gyflawni’r gwaith ar hyn o bryd. Roedd y cynllun yn parhau ar eu rhestr gwaith gyda’r gobaith y bydd cyllid ar gael yn y dyfodol agos.

Gofynnwyd i’r clerc basio’r cwynion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

Coeden ar riw Parc.

Roedd un o’r coed yn gwyro ger Pennant ac roedd peryg y gallai ddisgyn i’r ffordd.

Cwteri wedi cau ar ochr y ffyrdd ym Mharc.

Roedd angen clirio’r cwteri ger yr hen loches bws ar y ffordd i mewn i’r pentref a ger Ffridd Tan Nyrs - rhwng Pant Neuadd a ‘Styllen.

Pont pentref Y Parc.

Roedd difrod i gornel y bont ac roedd chonau wedi cael ei gosod ers peth amser i ddiogelu’r safle. Gofynnwyd i’r clerc gwneud ymholiadau i weld os oedd unrhyw gynlluniau i drwsio’r difrod.